# Canllaw y Gwasanaeth Pridiannau Tir

Os ydych chi'n prynu eiddo yn ardal Sir y Fflint, fel rhan o'r broses drawsgludo, fel arfer gwneir cais i'r swyddfa Pridiannau Tir Lleol i ddarparu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn ymwneud â phridiannau, hysbysiadau a materion yr awdurdod lleol sy'n effeithio ar yr adeilad(au) neu ddarn o dir.

Gall awdurdodau lleol, cwmnïau chwilio preifat ac aelodau'r cyhoedd gynnal chwiliadau tir ac eiddo.

## Pa wybodaeth fydd y chwiliad yn ei gynnwys?

Mae sawl chwiliad ar gael. Fodd bynnag, mae Chwiliad Pridiannau Tir Lleol fel arfer yn cynnwys dwy elfen, ffurflen LLC1 a ffurflen CON29, y cyfeirir atynt fel arfer fel chwiliad 'llawn', 'safonol' neu 'swyddogol'. Sylwer na fydd y chwiliad yn cynnwys gwybodaeth am eiddo cyfagos. Os oes gennych chi bryderon am ddarn cysylltiol o dir, gallwch gyflwyno ymholiad ychwanegol (pris isod).

### LLC1

Archeb ar gyfer chwiliad a thystysgrif swyddogol y chwiliad: Mae hyn yn ceisio gwybodaeth o Gofrestr Pridiannau Tir Lleol, y mae'n ofynnol yn ôl cyfraith i'r Adran Pridiannau Tir ei chadw, am yr holl bridiannau tir lleol sydd wedi'u cofrestru yn erbyn eiddo yn Sir y Fflint. Mae'r chwiliad yn ymdrin ag ystod o faterion, gan gynnwys caniatâd cynllunio, gorchmynion diogelu coed, grantiau, ardaloedd cadwraeth a hysbysiadau gorfodi. Mae'r swyddfa Pridiannau Tir Lleol yn casglu ac ardystio canlyniad y chwiliad sy'n cael ei indemnio'n llawn gan yswirwyr y Cyngor.

### CON29 'Ymholiadau Awdurdod Lleol'

Rhestr o ymholiadau safonol i awdurdod lleol ar faterion nad ydynt o reidrwydd wedi'u cynnwys yn chwiliad LLC1, megis ceisiadau cynllunio sydd wedi'u gwrthod neu'n aros am benderfyniad, hanes rheoli adeiladu, cynlluniau ffyrdd a hysbysiadau.

Argymhellir bod Chwiliad Pridiannau Tir Lleol llawn (LLC1 a CON29) yn cael ei gynnal i dderbyn yr uchafswm o ran gwybodaeth.

## CON29O ‘Ymholiadau opsiynol gan yr Awdurdod Lleol’

Mae hwn yn gyfres o gwestiynau opsiynol y gall eich cyfreithiwr eich cynghori i’w gofyn, yn unol â’r math o eiddo / tir yr ydych yn ei brynu.   Er enghraifft, ar CON29O gallwch ofyn am unrhyw dir comin a phibellau sy’n effeithio ar eich eiddo.

## Ymholiadau’r Cyfreithiwr

Os ydych yn dymuno holi am unrhyw fater gan yr Awdurdod Lleol nad yw wedi’i gynnwys mewn LLC1 neu CON29 neu CON29O, gallwch gyflwyno ymholiad penodol. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno holi am hanes cynllunio darn cyfagos o dir.

## Chwiliadau Draeniau

Mae Dŵr Cymru neu United Utilities yn ymdrin â’r rhain (www.con29drainagewater.co.uk).

# Gwneud cais am chwiliad

Mae adran Pridiannau Tir Lleol Cyngor Sir y Fflint yn cynnig y gwasanaethau canlynol:

1. **Chwiliad Llawn LLC1 a CON29**:   Gallwch anfon eich ceisiadau atom drwy e-bost gan ddefnyddio eich ffurflenni eich hun neu ein ffurflen gais chwilio y gellir ei lawrlwytho. Mae’n rhaid gynllun gyda’r holl geisiadau ynghyd â’r ffi briodol.  Gellir derbyn chwiliad o wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS) (www.nlis.org.uk) hefyd. Drwy NLIS, gall cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig dderbyn mynediad at chwiliadau tir ac eiddo swyddogol o ddarparwyr gwybodaeth graidd ddynodedig yn electronig.  Mae darparwyr data yn cynnwys yr holl Awdurdodau Lleol yn Lloegr a Chymru, y Gofrestrfa Tir, yr Awdurdod Glo a sawl cwmni dŵr.  Dosberthir y wybodaeth gan sianeli NLIS i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig.

Noder bod gwasanaeth chwiliad wedi’i adnewyddu ar gael am ddim gyda chwiliad preswyl llawn LLC1 a CON29.  Mae’r rhaid i’r ymgeisydd gwreiddiol gyflwyno’r cais ac mae’n rhaid iddo fod ar gyfer yr un safle a’i dderbyn o fewn 6 mis o ddyddiad cwblhau’r gwreiddiol.  Cysylltwch â Phridiannau Tir Lleol i gael rhagor o wybodaeth.

2. **Gwasanaeth Am ddim - Chwiliad o Gofrestr Pridiannau Tir Lleol**

Mae apwyntiadau ar gyfer chwiliadau o’r Gofrestr ar gael yn ystod oriau swyddfa arferol ac mae angen isafswm o 10 diwrnod gwaith o rybudd cyn apwyntiad.  Gall unrhyw gwmni ymgymryd ag uchafswm o 5 chwiliad Cofrestr Pridiannau Tir Lleol fesul apwyntiad.  Pan archebir apwyntiad i ddechrau, mae'n rhaid i chi ddarparu o leiaf un o'r cyfeiriadau yr ydych yn bwriadu eu chwilio, ac yna dylid cadarnhau dros e-bost gyda'r

cynllun o’r safle ar unwaith.   Gellir anfon y 4 cyfeiriad arall yn ddiweddarach ond mae’n rhaid i ni eu derbyn gydag ISAFSWM O 5 DIWRNOD GWAITH cyn eich apwyntiad. Bydd Pridiannau Tir Lleol yn sicrhau bod y Gofrestr wedi'i chynnal a'i diweddaru, nes y gellir cynnig cyfleuster chwilio gofodol.

Mae’n rhaid anfon cynllun wedi’i farcio’n glir a chyfeiriad dros e-bost i gadarnhau'r apwyntiad.  Noder na fyddwch yn gallu cynnal chwiliad cywir os nad ydym wedi derbyn cynllun o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn yr apwyntiad.   Wrth anfon eich cadarnhad dros e-bost, dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:   (1) Eich cyfeiriad busnes a rhif ffôn; (2) dyddiad ac amser yr apwyntiad; (3) Disgrifiad o'r cyfeiriadau i'w chwilio; (4) Math o chwiliad, gan ddefnyddio cod REG; (5) Cynlluniau eglur a diamwys ar gyfer eich holl chwiliadau.

Gellir gweld y wybodaeth ar y safle neu’i derbyn drwy e-bost (nid o reidrwydd ar yr un amser/dyddiad).   Efallai y bydd gofyn i chi edrych ar gopïau electronig neu wybodaeth ar bapur.

Gweler hefyd Sut i gael gwybodaeth CON29

# Ffioedd a thalu

| Math o gais am chwiliad | Ffi'r Cais (gan eithrio TAW) | TAW ar 20% | Cyfanswm y ffi sy'n daladwy (gan gynnwys TAW lle bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| LLC1 yn unig (rhan gyfan o'r gofrestr) | £6.00 | Dim | **£6.00** |
| Chwiliad swyddogol llawn | £106<br>( Elfen LLC1 £6.00)<br>( Elfen CON29 £100) | Dim<br>£20 | **£126** |
| Ymholiadau CON29 yn unig | £100 | £20 | **£120** |
| Ymholiadau dewisol CON29 (yr un) | £10 | £2 | **£12** |
| Ymholiadau ychwanegol yr ymgeisydd (yr un) | £21 | £4.20 | **£25.20** |
| Darnau ychwanegol o dir (yr un) | £12.00<br>( Elfen LLC1 £1.00)<br>( Elfen CON29 £11) | Dim<br>£2.20 | **£14.20** |
| Ffi i frysio’r cais (Chwiliad Swyddogol) | £25 | £5 | **£30** |

Ein hamser gweithredu presennol yw 15 diwrnod gwaith. Gallwch dalu'r ffi chwilio naill ai drwy'r opsiwn a ffefrir gennym trwy ein gwefan yma: https://www.civicaepay.co.uk/Flintshire/Webpay_Public/Webpay/default.aspx (dewiswch Pridiannau Tir Lleol o'r rhestr ar yr ochr) neu drwy BACS/Taliad Cyflymach. Cysylltwch â'r Adran Pridiannau Tir ar 01352 702333/4/5 neu anfonwch e-bost at land.charges@flintshire.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth. Sylwer, nid ydym yn cynnig cyfrifon talu.

## Polisi Canslo Chwiliad

Ein polisi yw y byddwn yn derbyn cais i ganslo chwiliad os nad ydym wedi dechrau ei brosesu.

# Oriau swyddfa a lleoliad

Yr oriau swyddfa yw 9am tan 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener. Cyfeiriad y swyddfa lle y cedwir y cofnodion cyhoeddus yw Prif Dderbynfa, Ty Dewi Sant, St David’s Park, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF.

# Manylion Cyswllt

Ar gyfer chwiliadau Cloddio Plwm cysylltwch â Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint, yr Hen Reithordy, Penarlâg, CH5 3NR. Ffôn 01244 532364

Ar gyfer Ymholiadau Draeniau, ewch i www.con29drainagewater.co.uk

Ar gyfer ymatebion i Ymholiadau CON29O, cyflwynwch ffurflen Ymholiad CON29O i Bridiannau Tir. Cost pob ymholiad yw £12 (gan gynnwys TAW).

I archwilio Cofrestr Tir Comin a Maes Trefi a Phentrefi, cysylltwch ag Adran Trawsgludo'r Cyngor ar 01352 702312.

# Cofrestrfa Tir / Perchnogaeth Tir

Ar gyfer ymholiadau am berchnogaeth tir o fewn ardal Sir y Fflint, ewch i wefan y Gofrestrfa Tir ar

(www.gov.uk/government/organisations/land-registry)

Ar gyfer ymholiadau am dir sy’n eiddo i’r Cyngor, cysylltwch ag Adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar 01352 702315 neu 01352 702312.